CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# ADRODDIAD CRAFFU BLYNYDDOL 2022-23




**GORFFENNAF 2022 – MAI 2023**

**This document is available in English**
**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# CYNNWYS

| | Tudalen |
|---|---|
| Croeso | 2 |
| Trosolwg a Chraffu yn Nhorfaen | 3 |
| Craffu Torfaen mewn Rhifau | |
| - Faint o graffu gwnaethom ni? | 4 |
| - Pa mor dda wnaethom ni? | 6 |
| - Beth oedd canlyniadau'r craffu? | 7 |
| Datblygiadau a Gyflenwyd yn ystod y Flwyddyn | 8 |
| - Hunanwerthusiad a hyfforddiant | 8 |
| - Adroddiad Eitem ar gyfer Cyfarfod Nesaf | 9 |
| - Pwyllgor Addysg – Briffio gan yr Aelod Gweithredol | 9 |
| - Craffu'r BGC | 9 |
| - Ymgysylltu trigolion | 9 |
| - Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethiant a Gwelliant | 10 |
| - Adolygiad SAC o Graffu | 11 |
| - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 11 |
| - Effaith Craffu | 11 |
| Datblygiad a Gynlluniwyd ar gyfer y Dyfodol | 13 |
| Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Glanach | 14 |
| Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach | 16 |
| Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg | 19 |
| Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Mwy Llewyrchus | 22 |
| Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Trawsbynciol Adnoddau a Busnes | 25 |
| Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r BGC | 28 |

# TROSOLWG A CHRAFFU

## Croeso……..

**….i adolygiad blynyddol Cyngor Torfaen o'i swyddogaeth drosolwg a chraffu.**

Mae'r adroddiad yn amlygu gwaith pum pwyllgor trosolwg a chraffu'r Cyngor a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu'r BGC yn ystod blwyddyn ddinesig 2022/23.  Mae'n cyflwyno datblygiadau diweddar yn swyddogaeth drosolwg a chraffu'r Cyngor ac yn rhoi manylion y cynnydd a gafodd ei wneud yn ystod y flwyddyn flaenorol i gryfhau perfformiad. Yn olaf, mae hefyd yn tanlinellu cynigion i wella a datblygu'r swyddogaeth drosolwg a chraffu ar gyfer y dyfodol.

Yn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai 2022 etholwyd 17 aelod newydd i'r Cyngor. Cynhaliwyd sesiynau cyflwyno ym Mehefin 2022 gan roi cyflwyniad helaeth i fywyd y Cyngor i aelodau newydd a phrofiadol gan roi i aelodau'r wybodaeth yr oedd ei hangen i gyflawni eu dyletswyddau newydd. Roedd rhan o'r broses gyflwyno yn cyflwyno'r broses graffu a fabwysiadwyd yn Nhorfaen, gan amlygu ei hamrediad a'i phwysigrwydd oddi mewn i swyddogaeth ddemocrataidd y Cyngor.

Penodwyd nifer o'r aelodau newydd eu hethol i un neu fwy o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor. Er bod bod yn rhan o'r broses graffu'n newydd i nifer o aelodau newydd, mae eu penodiad a'u hymgysylltiad wedi dod â thoreth o brofiadau newydd, gwybodaeth a barn sydd wedi helpu i ffurfio ac esblygu'r swyddogaeth ddemocrataidd yma.

# Trosolwg a Chraffu yn Nhorfaen…

Arweinir trosolwg a chraffu yn y Cyngor gan yr aelodau trwy bum Pwyllgor, sef:

- ⇨ **Cymunedau Glanach**
- ⇨ **Cymunedau Iachach**
- ⇨ **Cymunedau Llewyrchus**
- ⇨ **Addysg**
- ⇨ **Trawsbynciol Adnoddau a Busnes**

Mae pob pwyllgor (ac eithrio Trawsbynciol Adnoddau a Busnes) yn cynnwys naw aelod etholedig, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn gyfan. Cymeradwywyd aelodaeth y Pwyllgorau yn 2022/23 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 24ain Mai 2022.

Parhaodd y Pwyllgor Trawsbynciol Adnoddau a Busnes i edrych ar faterion sy'n cael effaith ar draws y Cyngor yn gyfan. Aelodaeth y Pwyllgor hwn yw pob aelod nad ydynt yn Aelodau Gweithredol.

Mae yna hefyd **Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)** a graffodd ar waith BGC Torfaen wrth iddo drosglwyddo i fod yn BGC Rhanbarthol. Mae'r pwyllgor yma'n cynnwys pum cadeirydd y pwyllgorau craffu ac mae'n cyfarfod dwywaith y flwyddyn.

Yn ogystal â'r pum pwyllgor trosolwg a chraffu unigol, mae gan y Cyngor **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor**, yn cynnwys pob aelod nad ydynt yn rhan o Gabinet y Cyngor. Mae'r pwyllgor yma'n cyfarfod dim ond yn ystod cyfarfod o'r Cyngor llawn er mwyn ystyried heriau i benderfyniadau'r Cabinet. Yn ystod y flwyddyn ddinesig ddiwethaf, ni chafodd unrhyw heriau eu gwneud gan aelodau craffu ac felly ni alwyd unrhyw gyfarfodydd o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn ystod y cyfnod yma.

Amlygir manylion llawn gwaith y pwyllgorau yma'n nes ymlaen yn yr adroddiad yma.

# CRAFFU TORFAEN MEWN RHIFAU

## FAINT O GRAFFU GWNAETHOM NI?

| | *2022/23* |
|---|---|
| **Nifer y Cyfarfodydd Pwyllgor:** | ***26*** |
| **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd gan Aelod Gweithredol (trwy wahoddiad):** | ***13/ 13*** |
| **Nifer y gwahoddedigion yn mynychu/cyfrannu i gyfarfodydd pwyllgor:** | ***21*** |

## Faint o Graffu Gwnaethom Ni?

Ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym Mai a phenodiad ffurfiol aelodau etholedig i bwyllgorau, cynhaliodd pob pwyllgor trosolwg a chraffu eu sesiynau gweledigaeth ar gyfer blwyddyn 2022/23 yng Ngorffennaf 2022. Yn ystod y sesiynau yma, cyfarfu'r aelodau'r â'r Aelodau Gweithredol a'r Prif Swyddogion sy'n adrodd i'r pwyllgorau unigol a thrafodon nhw'r materion perthnasol a oedd yn dod yn y flwyddyn o'u blaen ac a oedd yn berthnasol i'r pwyllgor penodol hwnnw. Ar ôl trafodaeth, trefnodd pob pwyllgor eu basged o eitemau yn ôl blaenoriaeth ar gyfer craffu yn y flwyddyn i ddod.

Ym Medi 2022 dechreuwyd ar flwyddyn graffu brysur iawn, gyda 36 o gyfarfodydd yn cael eu cynnal hyd at Fai 2023, cynnydd o 10 cyfarfod o gymharu â 2021/22.

Mae'r dewis o agendâu "eitem unigol" ar gyfer pob cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu wedi sicrhau her fanwl i bob eitem a oedd yn cael ei drafod a bod argymhellion eglur, ystyrlon yn cael eu gwneud i Aelodau Gweithredol a Phrif Swyddogion.

Cyn pob cyfarfod, roedd yna sesiwn cyn yr agenda ble roedd y pwyllgor ac aelodau cyfetholedig yn penderfynu ar strategaeth holi ar gyfer y cyfarfod. Mae cyfarfodydd cyn yr agenda wedi bod yn arbennig o fuddiol eleni, gydag aelodau newydd yn dysgu dulliau newydd o holi cyn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ffurfiol.

Ble mae'n briodol, mae aelodau craffu wedi mabwysiadau dulliau gweithio llai ffurfiol er mwyn ysbrydoli ac ehangu persbectif eu gwaith. Mae hyn wedi cynnwys ymgymryd ag ymweliadau, defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ddeall barn trigolion, siarad ag arbenigwyr a rhanddeiliaid perthnasol yn bersonol ac ar-lein a gwneud gwaith ymchwil ac adolygu manwl. Mae pwyllgorau hefyd wedi gwahodd tystion allanol / gwahoddedigion i gyfrannu i'w cyfarfodydd i helpu i ymestyn eu gwybodaeth o'r mater sy'n cael ei graffu. Mae hyn wedi golygu cyfranogiad Aelodau Gweithredol, Prif Swyddogion, Arweinwyr Tîm, swyddogion awdurdodau lleol eraill, darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth, rheoleiddwyr allanol, a chyrff proffesiynol eraill. Mae gwahoddedigion sydd wedi ymwneud â chraffu dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru, Cymdeithasau Tai, Grŵp Cyswllt Safle'r British, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, perchnogion busnesau lleol ac APSE (Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus).





***Ymweliad Pwyllgor TaCh Cymunedau Iachach â Thŷ Glas y Dorlan - 21ain Medi 2022***

Ymwelodd aelodau'r Pwyllgor TaCh Cymunedau Iachach â Thŷ Glas y Dorlan ym Medi 2022 fel rhan o'i weithgaredd craffu o adolygu perfformiad y cyfleuster a'r gwasanaeth yn ei chwe mis cyntaf o fodolaeth. Croesawodd aelodau'r cyfle i siarad â darparwyr y gwasanaeth, teithio o gwmpas yr adeilad a'r cyfleusterau ac, yn fwyaf pwysicaf, ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth.





***Ymweliad y Pwyllgor TaCh Cymunedau Llewyrchus â Chanolfan Arloesi Busnes Springboard – 5ed Hydref 2022***

Yn Hydref 2022, craffodd y Pwyllgor TaCh Cymunedau Llewyrchus ar ganfyddiadau'r comisiwn gan Oxford Innovation, i fod yn sail i ac i benderfynu ar y ffordd ffafredig ar gyfer Canolfan Arloesi Springboard. Fel rhan o'u hymchwil, ymwelodd y pwyllgor â Chanolfan Arloesi Busnes Springboard, Llantarnam a chymeron nhw'r cyfle i siarad â swyddogion, teithio o gwmpas y cyfleuster a siarad â pherchnogion busnes sy'n gweithredu yn y ganolfan.

Mae aelodau'r Cabinet wedi dod i gyfarfodydd craffu i ateb cwestiynau a rhoi gwybodaeth ar wahoddiad y Pwyllgor. Mae presenoldeb y Cabinet mewn cyfarfodydd craffu yn dangos bod y rôl 'dal i gyfrif' y broses graffu'n gweithio'n dda. Yn ystod 2022/23 daeth Aelodau Gweithredol i gyfarfodydd craffu ffurfiol 13 o weithiau, yn uwch na'r 7 achlysur yn 2021/22. Mae hyn ar ben 4 o gyfarfodydd briffio gydag Aelodau Gweithredol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor TaCh Addysg.

Mae 21 o arbenigwyr/ gwahoddedigion wedi cyfrannu i gyfarfodydd Pwyllgor, naill ai'n bersonol neu drwy MS Teams, yn ystod cyfarfodydd, cyfarfodydd cyn-agenda neu drwy gyfraniadau trwy e-bost yn 2022/23, gan ddychwelyd at lefelau cyn y pandemig.

## PA MOR DDA WNAETHOM NI?

| | 2022/23 |
|---|---|
| **Presenoldeb Cynghorwyr ar gyfartaledd mewn Cyfarfodydd Craffu:** | ***77.5%*** |
| **Nifer o olygon darllediadau ar y we:** | ***1086*** |

## Pa Mor Dda Wnaethom Ni?

Mae cyfradd presenoldeb cynghorwyr yn mesur agwedd bwysig o effeithlonrwydd gan ei fod yn adlewyrchu ymgysylltiad cynghorwyr yn y broses graffu. Mae ffigyrau presenoldeb ar gyfer Cynghorwyr yn cael eu casglu gan Dîm Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor ac yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Ffigwr 2022/23 ar gyfer presenoldeb yw 77.5% ar gyfer y pwyllgorau i gyd, sydd yn uwch na ffigwr y flwyddyn flaenorol o 74%. (Mae ffigyrau presenoldeb pwyllgorau craffu unigol ac aelodau unigol yn cael eu nodi'n fanwl yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.) Mae'r cynnydd yma mewn presenoldeb, gydag atebion yn Arolwg Craffu'r Aelodau, yn parhau i adlewyrchu dewis aelodau o blaid, a buddion cyflwyno system hybrid ar gyfer cyfarfodydd craffu gyda chydbwysedd o aelodau'n mynychu cyfarfodydd craffu ar-lein ac yn y Siambr.

Cyfanswm golygon darllediadau ar y we ar draws y pwyllgorau craffu yn 2022-23 oedd 1086, cynnydd aruthrol o gymharu â'r y 256 a gofnodwyd yn 2021-22. Y golygon i bob cyfarfod (a ddarlledwyd yn fyw) ar gyfartaledd oedd 42 sydd bron 3 gwaith y cyfartaledd yn 2021-22. Cafodd cyfarfod y Pwyllgor TaCh Cymunedau Glanach ar 9fed Chwefror 2023 a oedd yn edrych ar Opsiynau i wella ailgylchu trwy adolygu amlder gasgliad sbwriel yn y fwrdeistref, 158 o olygon. Mae'n bwysig ein bod ni'n ystyried y ffigyrau yma gan fod hyn yn dangos cynnydd mewn ymgysylltiad gan y cyhoedd gyda'r broses graffu ac yn ein helpu i ddatblygu'r ffyrdd mwyaf cynhyrchiol ar gyfer gwelliannau pellach.

Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o graffu yn agwedd bwysig o effeithlonrwydd. Mae'r data yma'n cael ei gasglu trwy arolwg blynyddol o gynghorwyr. Mae nifer o'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn seiliedig ar nodweddion craffu effeithiol a nodwyd gan y Ganolfan dros Graffu Cyhoeddus / Swyddfa Archwilio Cymru. Nifer y Cynghorwyr a atebodd i'r arolwg eleni oedd 19 (59% o'r aelodau craffu). Mae canfyddiadau penodol yn cael eu cyflwyno'n fanwl yn adran hunanasesiad yr adroddiad blynyddol hwn.

## BETH OEDD CANLYNIADAU’R CRAFFU?

| | *2022/23* |
|---|---|
| **Nifer o argymhellion a gafodd eu gwneud:** | **152** |
| **Nifer o argymhellion a gafodd eu derbyn:** | **128** |
| **Nifer o argymhellion a gafodd eu gwrthod:** | **6** |
| **Nifer o argymhellion a nodwyd i’w hystyried:** | **18** |

## Beth oedd Canlyniadau’r Craffu?

Mae ffurflenni pro-fforma ar gyfer argymhellion yn rhan sefydlog o’r broses graffu yn Nhorfaen. Maen nhw’n caniatáu i’r Pwyllgor gyfathrebu’n gyflym ac yn effeithlon, yn uniongyrchol â’r Aelodau Gweithredol perthnasol. Mae aelodau’r pwyllgor yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant, gan adlewyrchu trafodaethau mewn cyfarfodydd pwyllgor sy’n gofyn am ateb prydlon gan yr Aelod Gweithredol/ Prif Swyddog.

Mae’r graddau iddynt y mae Aelodau Gweithredol yn derbyn argymhellion craffu’n dangos yn dda a yw craffu’n gwneud argymhellion cryf ar sail tystiolaeth.

**Atebodd Aelodau Gweithredol i 152 o argymhellion yn 2022-23;**

- **128 (84%) - wedi eu derbyn**
- **18 (12%) - wedi eu nodi i’w hystyried**
- **6 (4%) - wedi eu gwrthod.**

Mae ffigyrau fesul pwyllgor isod yn yr adrannau pwyllgorau. Mae canran y penderfyniadau a dderbyniwyd wedi codi o 76% yn 2021-22 i 84% yn 2022-23, gyda’r nifer o argymhellion a nodwyd i’w hystyried wedi gostwng o 36% i 12% a’r nifer o wrthodwyd yn gwella, i lawr o 6% i 4%. Mae’r canlyniadau yma’n dangos yn eglur bod aelodau’n gwneud argymhellion effeithiol. Gyda hyfforddiant, datblygiad a phrofiad pellach, ein bwriad yw sicrhau bod pob gweithgaredd craffu’n arwain at argymhellion sy’n cael effaith.

# Datblygiadau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn …

Mae ein dulliau trosolwg a chraffu wedi parhau i addasu trwy gydol 2022-23.

## Hunanwerthusiad a hyfforddiant …

Mae cyfarfodydd anffurfiol wedi cael eu cynnal gyda'r Cadeiryddion Craffu i gyd trwy *Teams*, i ystyried a hunanwerthuso perfformiad pob pwyllgor, ystyried unrhyw faterion cychwynnol sydd wedi codi yn ystod y broses graffu neu gyfarfodydd ac i drafod cynigion ar gyfer gwelliant/ datblygiad.

Pob blwyddyn, mae'r tîm cefnogi craffu yn cynnal Arolwg Craffu Aelodau i ganfod barn aelodau am y gefnogaeth y maen nhw'n ei derbyn er mwyn cwblhau eu rolau, am y broses graffu, ac am effaith a chanlyniadau gweithgaredd craffu.

**Canfyddiadau Allweddol Arolwg:-**

**Nodweddion Cadarnhaol:**
- Roedd 90% o aelodau a holwyd yn teimlo eu bod yn gymwys neu'n gymwys iawn i gynnal gwaith craffu, gwelliant o'r 77% yn 2021/22
- Atebodd 100% o aelodau eu bod wedi eu cefnogi'n dda, neu'n llawn gan y tîm cefnogi craffu gyda dim aelodau'n dweud eu bod yn cael eu cefnogi mewn ffordd annigonol. Mae hyn yn welliant o'r 88% yn arolwg llynedd
- Mae 94.5% o aelodau'n ystyried bod y cyfarfodydd cyn yr agenda'n ddefnyddiol, gwelliant sylweddol o'r gyfradd ymateb o 83% yn arolwg llynedd
- Mae 68.4% o aelodau'n credu bod y rhaglen waith yn cael eu harwain gan aelodau, sy'n welliant sylweddol ar gyfradd ymateb llynedd o 41%
- Atebodd 89.5% o aelodau fod craffu'n arwain at lefel o effaith, sydd yn debyg i ymateb llynedd o 88%

**Meysydd ar gyfer mwy o ffocws yn 2022/23:**
- 72.2% o aelodau'n credu bod y broses weledigaeth yn arwain at fod pwyllgorau craffu'n ystyried y materion cywir. Yn siomedig, mae hyn i lawr ychydig o 76% yn arolwg 2021/22
- 29.4% o aelodau'n ateb yn teimlo nad yw pwyllgorau craffu'n cyflawni eu rôl o ddal y Gweithgor i gyfrif.
- 57.9% o aelodau a holwyd yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r ymateb a gafwyd gan yr Aelod Gweithredol i argymhellion y pwyllgor, i lawr o 71% yn 2021/22. Canlyniad sy'n syndod ac yn siom o ystyried bod nifer yr argymhellion a dderbyniwyd wedi cynyddu cymaint
- 35% yn unig o aelodau'n teimlo bod y cyhoedd wedi eu hymgysylltu mewn ffordd ddigonol yn y broses graffu

Bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu a fydd yn cyflwyno camau a chynigion i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r arolwg a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u symud ymlaen mewn ymgynghoriad â Chadeiryddion pwyllgorau craffu, yng Nghyfarfodydd Anffurfiol Cadeiryddion.

Yn ogystal â'r Arolwg Blynyddol, mae Arolwg Ar Ôl-Craffu hefyd wedi ei gyflwyno. Ar ôl pob cyfarfod, mae dolen yn cael ei danfon at holl aelodau'r pwyllgor, swyddogion perthnasol a gwahoddedigion i gwblhau a myfyrio ar y gwaith yn arwain at a chyn y cyfarfod, a'r cyfarfod ei hun. Mae canlyniadau'r arolygon yma'n cael eu monitro'n rheolaidd fel rhan o fonitro perfformiad cynllunio'r gwasanaeth er mwyn i newidiadau amserol gael eu gwneud neu er mwyn mynd i'r afael â phroblemau.

## Adroddiad Eitem ar gyfer Cyfarfod Nesaf

Er mwyn sicrhau bod rhaglenni gwaith yn hyblyg, mae pob pwyllgor nawr yn ystyried adroddiad ‘Eitem ar Gyfer y Cyfarfod Nesaf’ ar ddiwedd cyfarfod. Mae’r adroddiad yma’n rhoi cyfle i aelodau adolygu diweddariad y Blaengynllun Gweithredol, ystyried unrhyw adroddiad arolygu allanol sydd ar ddod ac ystyried eu rhaglen waith wreiddiol. Os bydd angen, efallai bydd y pwyllgor yn penderfynu ail-flaenoriaethu’r eitemau y maen nhw’n craffu arnynt, gan sicrhau bod gweithgaredd craffu’n adweithiol ac yn canolbwyntio ar y materion allweddol sy’n wynebu’r Cyngor.

## Pwyllgor Addysg – Briffio gan yr Aelod Gweithredol

Ar ôl arolwg Estyn o’r Cyngor ym Mawrth 2022, sefydlodd y Pwyllgor TaCh Addysg gyfarfodydd penodol gyda’r Aelod Gweithredol dros Addysg, y tu allan i’r cyfarfodydd craffu ffurfiol.  Mae’r sesiynau yma’n caniatáu trafodaeth anffurfiol, agored ac onest rhwng yr Aelod Gweithredol dros Addysg a’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, gan roi trosolwg i aelodau’r pwyllgor o’r materion allweddol mewn Addysg a’n hysgolion, gan gryfhau eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth cyn cynnal y gweithgaredd craffu ffurfiol.

## Craffu’r BGC

Ym Medi 2021, cyfunodd y pump BGC ar gyfer Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen, i ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent. Yn gyson â’r uno yma, mae BGC Gwent wedi sefydlu Pwyllgor Craffu BGC Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr o’r 5 awdurdod. Cynrychiolwyr Torfaen ar Bwyllgor Craffu BGC Rhanbarthol Gwent yw’r Cyng. Rosemarie Seabourne a’r Cyng. David Williams. Er bod symudiad wedi bod at ddull rhanbarthol o graffu, bydd yr awdurdod yn cadw ein Pwyllgor Craffu BGC ein hunain i barhau i adolygu ac ystyried cynlluniau cyflenwi lleol a gweithredu.

## Ymgysylltu trigolion …

Mae trosolwg a chraffu wedi defnyddio sianelau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf –  Facebook, Twitter a’r dudalen Cymerwch Ran – i ganfod barn trigolion sydd â diddordeb. Mae adroddiadau trosolwg a chraffu’n cael eu postio cyn cyfarfodydd, ac mae unrhyw farn neu sylwadau a fynegir yn cael eu hystyried gan aelodau yn eu cyfarfodydd cyn yr agenda er mwyn ysbrydoli eu cwestiynau i wahoddedigion a swyddogion.

Mae’r tîm cefnogi craffu’n gweithio gyda’r tîm cyfathrebu i geisio barn y cyhoedd am yr holl adroddiadau craffu sydd ar ddod ac mae’r sylwadau yma wedi eu defnyddio gan aelodau mewn cyfarfodydd i fod yn sail i’w herio a’u cwestiynau i swyddogion. Mae ymgysylltiad cyhoeddus wedi cynyddu’n sylweddol eleni gyda channoedd o sylwadau ar ein postiadau yn cyflwyno’n hadroddiadau craffu sydd ar ddod. Derbyniodd y Pwyllgor TaCh Cymunedau Glanach dros 1000 o sylwadau a chyfraniadau gan y cyhoedd pan oedd yn ymgymryd â’i weithgaredd craffu yn edrych ar ddewisiadau ar gyfer y gwasanaeth gwastraff. Denodd eitemau craffu eraill, gan gynnwys craffu Pwyllgor TaCh Cymunedau Glanach o’r Argyfwng Tai ac adolygiad y Pwyllgor Cymunedau Llewyrchus o brosiect adfywio safle’r British, nifer o sylwadau gan y cyhoedd a ystyriwyd gan yr aelodau cyn iddyn nhw ymgymryd â gweithgaredd craffu ffurfiol.

Mae adborth ar argymhellion craffu sydd wedi eu gwneud hefyd yn cael ei bostio yn y cyfryngau cymdeithasol, fel y gall trigolion weld canlyniad eu cyfraniad a phenderfyniad y gweithgaredd craffu.

Mae tudalen 'Awgrymu eitem i'w chraffu' ar gael ar wefan y Cyngor, ac yn gwahodd awgrymiadau gan aelodau'r cyhoedd am y mathau o eitemau a allai fod yn destun craffu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Gwelwyd cynnydd yn nefnydd y dudalen hon eleni, gyda nifer o awgrymiadau'n cael eu cynnig trwy'r ffordd yma.

Mae cyfraniad cyhoeddus yn allweddol, yn arbennig yn ystod y broses weledigaeth. Gofynnir am farn trigolion, a barn Panel y Bobl, y Fforwm Ieuenctid, y Fforwm Pobl Hŷn a'r Rhwydwaith Llysgenhadon Hinsawdd, cyn sesiynau gweledigaeth, er mwyn penderfynu pa faterion sy'n bwysig iddyn nhw a'r hyn y maen nhw'n credu dylai'r pwyllgorau fod yn craffu arno. Yn 2022/23, cafodd 47 o awgrymiadau gan y cyhoedd eu dwyn ymlaen (cafodd nifer eu casglu ynghyd mewn themâu fel sbwriel). Ysgrifennodd aelod o'r cyhoedd i awgrymu ein bod yn edrych ar wella cyflenwad tai fforddiadwy, a arweiniodd at adroddiad ar 'Ymdrin â'r Argyfwng Tai' at y Pwyllgor TaCh Cymunedau Iachach ym Mawrth 2023 yn ogystal ag awgrym ar Ofal yn y Cartref a ystyriwyd gan y pwyllgor yn Nhachwedd 2022. Cafodd awgrymiadau pellach yn gofyn i bwyllgorau craffu ystyried sbwriel a thipio anghyfreithlon, seilwaith gwyrdd a theithio llesol eu cyflwyno gan drigolion, gydag adroddiadau ar y materion yn cael eu derbyn gan y Pwyllgor TaCh Cymunedau Glanach yn 2022/23.

Mae manylion llawn yr adroddiadau yma a'r argymhellion a gafodd eu gwneud ar ôl craffu wedi eu nodi yn nes ymlaen yn yr adroddiad yma.

Mae Craffu wedi datblygu perthynas agos gyda Rhwydwaith Llysgenhadon yr Hinsawdd Torfaen, gan ymgysylltu â'u haelodau yn eu cyfarfod misol ym Mawrth 2023, er mwyn dangos sut allan nhw gymryd rhan ym mhrosesau democrataidd y Cyngor, gan gynnwys cyfrannu awgrymiadau ar gyfer craffu cyn sesiynau gweledigaeth ac fel rhan o gasglu tystiolaeth yn ystod y broses graffu. Diolchwn iddyn nhw am-eu hymgysylltiad a'u cyfraniadau parhaus.

Mae'r wasg leol hefyd wedi adrodd yn rheolaidd ar ein cyfarfodydd craffu a'r eitemau sydd wedi cael eu hystyried yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn llwybr arall i'w groesawu sydd wedi arwain at gynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad cyhoeddus gyda'n proses ddemocrataidd.

## Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethiant a Gwelliant

Mae unrhyw argymhellion sy'n benodol at wasanaeth ac sy'n cael eu gwneud gan reoleiddwyr allanol y Cyngor yn cael eu derbyn gan Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio'r Cyngor, a fydd wedyn yn cyfeirio'r mater i'w fonitro gan bwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol y Cyngor. Cyflwynwyd proses atgyfeirio newydd yn 2021 er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a'r Pwyllgorau Craffu.

Mae pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn adrodd i Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio'r Cyngor pob blwyddyn gyda diweddariad ar gynnydd mewn perthynas ag argymhellion a chynigion ar gyfer gwelliant sy'n cael eu gwneud gan ein rheoleiddwyr allanol. Derbyniwyd y diweddariad perthnasol i bob Pwyllgor cyn y sesiynau gweledigaeth yng Ngorffennaf 2022 ac adroddwyd yr argymhellion gan bob Pwyllgor i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn Hydref 2022. Bydd yr adroddiad diweddariad cynnydd ar gyfer 2022/23 yn cael ei baratoi ar gyfer pob atgyfeiriad a bydd adroddiad i'r Pwyllgorau craffu perthnasol yng Ngorffennaf 2023. Os yw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a/ neu'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn

amlygu unrhyw bryderon ynglŷn â'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a gytunwyd, bydd adroddiad yn cael ei baratoi i'w ystyried gan y Cabinet.

## Adolygiad Archwilio Cymru o Graffu

Yn ystod 2017/18 adolygodd Archwilio Cymru drefniadau craffu ym mhob cyngor yng Nghymru gan edrych pa mor 'addas at y dyfodol' oedd eu swyddogaethau craffu. Ystyriodd yr adolygiad sut mae swyddogaeth craffu'r cyngor yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) mewn perthynas â'u swyddogaeth craffu. Maen nhw'n edrych ar ba mor dda yw sefyllfa cynghorau i ymateb i heriau'r dyfodol. Cyhoeddwyd y canfyddiadau o'r adolygiad, 'Trosolwg a Chraffu: Addas at y Dyfodol?' yng Ngorffennaf 2018

Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhai argymhellion ar gyfer gwelliant a pharatowyd cynllun gweithredu a'i ddiweddaru'n rheolaidd mewn ymateb i'r canfyddiadau. Cyflwynwyd y cynllun gweithredu i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar 19eg Hydref 2022 ble cafwyd argymhelliad a chytundeb, tra ein bod ni'n parhau i ymdrechu i ddatblygu a gwella'n swyddogaeth craffu, bod ymdriniaeth wedi bod â'r argymhellion a gafodd eu gwneud gan Archwilio Cymru, a bydden nhw felly'n cael eu dileu rhag monitro pellach gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cafodd Aelodau seminar cyflwyno yng Ngorffennaf 2022 yn cyflwyno gofyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cafodd perthnasedd y ddeddf wrth ymgymryd â gweithgaredd craffu ei gyfeirio ato'n fwy penodol a'i ymhelaethu yn y sesiwn cyflwyno craffu ym Mehefin 2022.

Mae'r cyngor wedi datblygu asesiad lles sydd nawr yn nodwedd sydd wedi ei ymwreiddio ym mhob adroddiad sy'n cael eu cyflwyno am bolisïau newydd neu ddatblygiad strategaeth. O dan y Ddeddf mae'n llawn mor bwysig dangos gofynion y Ddeddf yn ein trefniadau craffu i gyd a maes allweddol ar gyfer datblygiad yn y flwyddyn nesaf bydd rhoi mwy o ystyriaeth i'r Ddeddf wrth ddatblygu trywydd cwestiynau.

## Effaith Craffu

Mae'n bwysig gwybod bod gwaith ac ymdrechion aelodau craffu'n cael effaith cadarnhaol, yn gwneud gwahaniaeth ac ychwanegu gwerth. Felly, mae'r pwyllgorau i gyd yn parhau i fonitro effeithiau eu hargymhellion. Mae hyn yn sicrhau bod argymhellion craffu'n cael eu gwerthuso'n iawn er mwyn gwella effeithlonrwydd y swyddogaeth, gan gynnwys adolygu unrhyw waith dilynol o gymharu â'r camau arfaethedig ac edrych yn fanwl ar ddeilliannau.

Mae'r rhaid i bob eitem posibl ar gyfer gweithgaredd craffu gael ei osod gerbron mewn templed gweledigaeth, sy'n cynnwys adran ar yr effaith a fwriedir gyda'r craffu ar eitem benodol. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau fel monitro perfformiad, datblygu hyder, a/neu ddatblygiad/adolygiad polisi. Pwysleisir i aelodau yn ystod sesiynau gweledigaeth mai dim ond eitemau a fydd yn cael effaith dylai gael eu dewis i'w craffu trwy gydol y flwyddyn. Pan fo'r pwyllgor yn derbyn y diweddariad ar adroddiadau argymhellion ar ddiwedd y flwyddyn graffu, mae aelodau'n gallu gwneud asesiad a yw craffu ar eitem wedi cael yr effaith a fwriadwyd ar adeg y weledigaeth.

Ymgymerir â phob pwyllgor a'u gweithgaredd craffu gyda'r bwriad o gael effaith, serch hynny gall yr effaith gynnwys amrywiaeth o bethau, gan ddibynnu ar y pwnc. Ymhlith y meysydd ble mae craffu wedi cael effaith dros y flwyddyn ddiwethaf mae:

- **Pwyllgor TaCh Cymunedau Llewyrchus–** Wrth graffu ar opsiynau'r dyfodol ar gyfer gweithredu yng Nghanolfan Busnes Springboard, cafodd y pwyllgor y cyfle i fwydo i mewn i ddatblygiad y polisi gweithredu yn y dyfodol ar gyfer Springboard a'r amrywiaeth o opsiynau posibl ar gyfer cyflenwi. Rhoddodd fforwm hefyd ar gyfer adolygu cynnydd yn erbyn nodau ac amcanion polisïau gweithredu Springboard gydag aelodau'n rhoi cyfarwyddyd defnyddiol ar feysydd allweddol i'w hystyried trwy adolygu paramedrau ariannol, gweinyddiaeth y Ganolfan a'r rheolaeth gweithredol.

- Bwydodd y **Pwyllgor TaCh Cymunedau Iachach** i mewn i gyfnod cychwynnol datblygiad y Strategaeth Lles Cymunedol newydd. Trwy graffu cynnar, chwaraeodd y pwyllgor ran mewn llunio'r weledigaeth a'r amcanion.

- **Pwyllgor TaCh Addysg** – Eleni, canolbwyntiodd pob un o'r cyfarfodydd craffu Addysg ar faes neu argymhelliad yn Arolwg Estyn 2022. Trwy'r craffu yma mae'r pwyllgor wedi sicrhau cynnydd gwydn a digon cyflym, wrth fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion.

- **Pwyllgor TaCh Cymunedau Glanach**– Trwy graffu ar Ailgylchu – Cyrraedd Targed Ailgylchu o 70% ar gyfer 2024-25, rhoddodd aelodau mewnwelediad i bryderon trigolion Torfaen am y newidiadau arfaethedig i gasgliadau sbwriel gweddilliol. Helpodd sgyrsiau hefyd swyddogion i lunio'r ffordd o gyfathrebu â thrigolion er mwyn cael y gwerth mwyaf o adborth.

- **Trawsbynciol Adnoddau a Busnes** – Yn Hydref 2022, derbyniodd y pwyllgor y Cynllun Sirol drafft 2022- 2027. Wrth adolygu a herio'r cynllun drafft, cyfrannodd aelodau at lunio ac at fanylion y themâu a'r amcanion lles y bydd cyflenwad y cynlluniau presennol a chynigion yn y dyfodol yn cael eu profi.

## Datblygiad a Gynlluniwyd ar gyfer y Dyfodol …

Bydd trosolwg a chraffu'n parhau i esblygu dros y 12 mis nesaf i sicrhau eu bod yn rhan effeithiol, dylanwadol ac annatod o swyddogaeth ddemocrataidd y Cyngor.

**Mae'r datblygiadau a gynllunnir yn cynnwys:**

- Darparu cyfres o fodiwlau hyfforddiant er mwyn cyfarparu aelodau'n llawn i gyflawni eu rôl fel aelodau craffu'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant penodol i Gadeiryddion a Hyfforddiant Sgiliau Holi
- Rhoi cyfleoedd pellach am hyfforddiant trwy gydol y flwyddyn i gryfhau hyder aelodau a'u sgiliau holi. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi bwletinau 'craffu ar dudalen' yn fisol a fydd yn cynnwys amrywiaeth o faterion fel pwyntiau hyfforddiant, ffeithluniau, astudiaethau achos ac amlygu arfer craffu da
- Cynnal arolwg blynyddol o aelodau, yn benodol am y swyddogaeth craffu yn Nhorfaen, er mwyn sicrhau bod gwelliannau fesul blwyddyn i'r broses graffu'n cael eu nodi a'u gweithredu
- Cryfhau ymgysylltiad cyhoeddus yn y broses graffu trwy edrych ar ffyrdd newydd ac arloesol o gynyddu ymwybyddiaeth o ac ymgysylltiad a'r broses graffu
- Ystyried pa gamau gellir eu cymryd i gefnogi integreiddio Deddf LlCD yng ngwaith pwyllgorau craffu, gan ymwreiddio'n benodol ystyriaeth o'r Ddeddf yn natblygiad holi aelodau
- Datblygu prosesau cydnerth o fonitro perfformiad yn y swyddogaeth craffu, gan gynnwys hyfforddi aelodau sut i fonitro a herio perfformiad ar draws y Cyngor yn effeithiol
- Adolygu'r broses asesu ar gyfer penderfynu ar effeithlonrwydd cyfarfodydd – bydd hyn yn cynnwys cyflwyno trafodaethau asesu ar ôl craffu ar ddiwedd y cyfarfod
- Rhoi tro ar ddull newydd o wneud argymhellion dros dro yn ystod cyfarfod (gan ddibynnu ar ba mor briodol yw'r eitem) gydag Aelodau Gweithredol a Swyddogion yn bresennol
- Edrych ar ffyrdd o ddatblygu perthnasau gwaith mwy cynhyrchiol rhwng cadeiryddion craffu ac aelodau gweithredol
- Gyda chyflwyno Pwyllgor Craffu BGC Rhanbarthol, mae'n bwysig datblygu peirianwaith adrodd priodol i hwyluso bod ein cynrychiolwyr yn bwydo'r deilliannau yn ôl o'r pwyllgor rhanbarthol i aelodau lleol

# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU GLANACH

**Cadeirydd y Pwyllgor yma oedd Cynghorydd Steven Evans (yn bresennol mewn 4/4 cyfarfod).**

**Aelodaeth y pwyllgor yn 2022/23 oedd:**

- **Y Cynghorydd Stuart Ashley (4/4 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Lynda Clarkson (4/4 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Elizabeth Haynes (2/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Nick Horler (4/4 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Gaynor James (0/4 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Mark Jones (2/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Jason O'Connell (2/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Norma Parrish (4/4 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Chris Tew (0/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Colette Thomas (4/4 cyfarfod)**

**Cynhaliodd y Pwyllgor 4 cyfarfod yn ystod blwyddyn ddinesig 2022/23. Cyfartaledd presenoldeb aelodau am y flwyddyn oedd 83% - i fyny o 73% y flwyddyn gynt.**

**Mae'r materion craffwyd arnynt gan y pwyllgor yn ystod 2022/23 yma: *(Mae adroddiadau llawn ar gael trwy glicio'r dolenni isod.)***

**17eg Tachwedd 2022**
**Seilwaith Gwyrdd**

**9fed Chwefror 2023**
**Opsiynau i wella ailgylchu trwy adolygu amlder casgliadau sbwriel gwastraff gweddilliol yn y Fwrdeistref**

**9fed Mawrth 2023**
**Cyflenwi Strategaeth Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon y Cyngor**

**27ain Ebrill 2023**
**Teithio Llesol**

**Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd craffu yma, cafodd argymhellion eu gwneud i'r Aelod(au) Gweithredol a Phrif Swyddog(ion) perthnasol. (Defnyddiwch y dolenni uchod i weld yr argymhellion gyda phecyn atebion.)**
**Ymatebodd Aelodau Gweithredol i 40 o argymhellion yn 2022-23;**

- **28 (70%) – wedi eu derbyn** *(gwelliant o'r 50% yn 2021-22)*
- **8 (20%) - wedi eu nodi i'w hystyried**
- **4 (10 %) - wedi eu gwrthod.**

## Crynodeb y Cadeirydd …

Mae e wedi bod yn gyfnod prysur arall i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Glanach. Mae rôl craffu'n hanfodol ar gyfer cael y Cyngor i weithredu'n rhwydd. Hoffwn drosglwyddo fy niolch personol i holl aelodau'r Pwyllgor am eu croeso a'u cefnogaeth frwd trwy gydol y flwyddyn. Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau'r cyhoedd am ymgysylltu'n rheolaidd gyda'r Pwyllgor, yn enwedig trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae cyfraniad aelodau'r cyhoedd bob amser yn cael ei ystyried yn ofalus. Y tu ôl i'r llenni, mae'r Pwyllgor wedi derbyn cefnogaeth ardderchog gan Swyddogion yn y timau Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu. Heb y timau yma, ni fyddai'r Pwyllgor yn gallu gwneud ei waith, a buaswn i ar fai pe na bawn i'n cydnabod hyn. Mae fy niolch arbennig i Catherine Joseph sydd wedi rhoi cefnogaeth ardderchog i mi a'r Pwyllgor o ddydd i ddydd.

Yn Nhachwedd 2022 gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad ar gynnydd Rheoli Seilwaith Gwyrdd Torfaen mewn ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd a ddatganwyd, ac i osod allan beth sy'n cael ei wneud i ysbrydoli cyfundrefnau rheolwyr yn 2023 a thu hwnt. Gwahoddon ni gynrychiolydd o Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE) i'r cyfarfod. Roedden nhw wedi ymwneud â'r broses o helpu i newid cyfundrefnau er mwyn asesu sut roeddem yn gwneud cynnydd. Roedd nifer o argymhellion y Pwyllgor yn adeiladu ar y gwaith cadarnhaol oedd eisoes yn digwydd yn y tîm.

Ar 9fed Chwefror 2023 edrychodd y Pwyllgor ar Ailgylchu a chyrraedd y Targed Ailgylchu o 70 %. Roedd y Pwyllgor yn deall y problemau anodd gyda chyrraedd y targed o 70% a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Pwyllgor yn deall yr anawsterau ariannol os oes methu targedau, a'r angen i ymgysylltu â thrigolion a chael adborth o ymgynghoriad â thrigolion Torfaen. Cynigiodd y Pwyllgor ymgynghoriad ac ymgysylltiad pellach gyda thrigolion fel rhan o'u hargymhellion clir a chydnerth i fynd i'r afael â'r mater anodd yma.

Ym Mawrth 2023 edrychon ni ar adroddiad ar Gyflenwi'r Strategaeth Sbwriel a Thipio. Cefnogodd y Pwyllgor y Strategaeth newydd a gwnaethon nhw nifer o argymhellion gan gynnwys yr angen i gadw momentwm i fynd yn y gwaith gydag Ysgolion. Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd waith gwirfoddolwyr ledled Torfaen wrth daclo Tipio Anghyfreithlon a Gollwng Sbwriel.

Edrychwyd ar Deithio Llesol ar 27ain Ebrill 2023. Edrychodd y Pwyllgor ar y System Fapio pob Llwybr Teithio Llesol yn Nhorfaen a'r system fapio well gyda'r llwybrau newydd wedi eu hychwanegu. Mae'r system yn dangos cysylltiadau ag ardaloedd fel y Gamlas a llwybrau cerdded a seiclo. Mae'r adroddiad yn dangos pa mor agos mae ein swyddogion yn cydweithio â Grwpiau eraill a Phartneriaid i gael cymaint o lwybrau hygyrch â phosibl. Gwahoddon ni Grwpiau i gymryd rhan ac ymatebon nhw ynglŷn â phroblemau symudedd ac anableddau wrth ddefnyddio Llwybrau Teithio Llesol yn Nhorfaen. Rydym yn ddiolchgar i'r rheiny a gymerodd ran ac a helpodd i lunio ein cwestiynau a'n hargymhellion. Roedd yn flwyddyn brysur i'r Pwyllgor ac mae'r aelodau'n ymwybodol iawn o'r effaith ar gynlluniau polisi'r Cyngor a newidiadau i drigolion Torfaen. Does gen i ddim amheuaeth fod gwaith y Pwyllgor wedi cefnogi'n cymuned ac wedi helpu'r Cyngor i barhau i ymdrechu i wella gwasanaethau ar adeg anodd.



*Y Cynghorydd Steve Evans*

**Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Glanach**

# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU IACHACH

**Cadeirydd y Pwyllgor yma oedd y Cynghorydd Janet Jones (yn bresennol mewn 5/5 cyfarfod).**

**Aelodaeth y pwyllgor yn 2022/23 oedd:**

- **Y Cynghorydd Alfie Best (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Catherine Bonera (0/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Lynda Clarkson (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Steven Evans (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Mark Jones (3/3 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Nick Jones (1/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Rose Seabourne (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Jayne Watkins (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd David Williams (1/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Lucy Williams (5/5 cyfarfod)**

**Cynhaliodd y Pwyllgor 5 cyfarfod yn ystod blwyddyn ddinesig 2022/23. Cyfartaledd presenoldeb aelodau am y flwyddyn oedd 89%, gwelliant sylweddol o'r 50% yn 2021/22.**

**Mae'r materion craffwyd arnynt gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn i'w gweld yma (*Mae adroddiadau llawn ar gael trwy glicio'r ddolen berthnasol):***

**20fed Hydref 2022**
**Tŷ Glas y Dorlan: Adolygiad Chwe Mis Cyntaf** ac **Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad**

**9fed Tachwedd 2022**
**Gofal yn y Cartref**

**15fed Rhagfyr 2022**
**Cydnerthedd Cymunedol**

**2il Mawrth 2023**
**Mynd i'r Afael â'r Argyfwng Tai**

**20fed Ebrill 2023**
**Gostwng nifer Plant Torfaen mewn Gofal (gan gynnwys Darpariaeth Breswyl i Blant, Rheolaeth Risg a Phlant Lleolir gyda'u Rhieni)**

**Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd craffu, cafodd argymhellion eu gwneud i'r Aelod(au) Gweithredol a Phrif Swyddog(ion) perthnasol. (Defnyddiwch y dolenni uchod i weld yr argymhellion gyda phecyn atebion.)**

**Ymatebodd Aelodau Gweithredol i 32 o argymhellion yn 2022-23;**

- **29 (91%) - wedi eu derbyn** *(i fyny'n sylweddol o 70% yn 2021-22)*
- **3 (9%) - wedi eu nodi i'w hystyried**
- **0 (5%) - wedi eu gwrthod**

## Crynodeb y Cadeirydd

Mae wedi bod yn anrhydedd Cadeirio'r Pwyllgor TaCh Cymunedau Iachach eleni ac rwyf wedi bod yn ffodus i gael cefnogaeth pwyllgor o aelodau profiadol iawn yn y sector gofal cymdeithasol ac sy'n angerddol iawn ac yn ymrwymedig i wella bywydau pobl yn Nhorfaen. Bu ein pwyllgor yn brysur iawn eleni yn edrych ar 6 phwnc allweddol a ddewiswyd yn ystod sesiwn weledigaeth a materion y gallem gael effaith arnynt trwy ein gweithgaredd craffu a chael newid gwirioneddol i drigolion Torfaen.

Yn ein cyfarfod cyntaf ym Medi 2022, adolygodd y Pwyllgor 6 mis cyntaf perfformiad model gweithredu **Tŷ Glas y Dorlan**. Ymwelon ni â Thŷ Glas y Dorlan a chroesawon ni'r cyfle i ymgysylltu â staff, teithio'r adeilad a'r cyfleusterau ac, yn fwyaf pwysig i aelodau, siarad â defnyddwyr y gwasanaeth a thenantiaid. Roedd aelodau'n fodlon gyda chynnydd Tŷ Glas y Dorlan yn erbyn y deilliannau yn y chwe mis cyntaf ac roedden nhw'n edrych ymlaen at weld cynnydd pellach yn y flwyddyn nesaf, gan wneud argymhellion i wella'r datblygiad hwn. Yn y cyfarfod hwn craffodd aelodau hefyd ar yr adroddiad ar **Sefydlogrwydd y Farchnad** cyn ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo. Penderfynodd ein pwyllgor ei fod yn adlewyrchu'n gywir sefydlogrwydd y gwasanaethau a gomisiynwyd ledled Torfaen a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, ond gwnaeth argymhellion i fonitro effaith yr argyfwng costau byw, ac i'r Aelod Gweithredol barhau i wneud sylwadau i Lywodraeth Cymru am yr argyfwng yn y sector Gofal yn y Cartref.

Yn ein cyfarfod yn Nhachwedd, craffodd y Pwyllgor ar fater pwysig **Gofal yn y Cartref**, i sicrhau ein bod ni fel Cyngor yn lliniaru'r perygl o fethiant system a'r effaith y byddai hyn yn cael ar bobl bregus a'u gofalwyr o ystyried yn ansefydlogrwydd presennol a'r pwysau yn y farchnad gofal yn y cartref. Gyda phryder am ansefydlogrwydd a dichonoldeb y sector gofal yn y cartref yn lleol, rhoddodd y Pwyllgor argymhelliad cryf y dylid ystyried ehangu'r gwasanaeth fewnol fel blaenoriaeth

Datblygu **Cydnerthedd Cymunedol** oedd yr eitem nesaf a ystyriwyd gan y Pwyllgor TaCh Cymunedau Iechyd. Trwy holi trwyadl a herio, roedd y pwyllgor yn fodlon y bydd y camau oedd yn cael eu cymryd yn ymwreiddio dull sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned yng ngwasanaethau'r Cyngor a bydd y camau sy'n cael eu cymryd yn arwain at gymunedau mwy cydnerth yn Nhorfaen. Gwnaeth yr aelodau nifer o argymhellion i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei gynnig ac sy'n cael ei wneud eisoes.

Yn ystod y sesiwn weledigaeth, nodwyd bod **Mynd i'r Afael â'r Argyfwng Tai** yn flaenoriaeth ar gyfer craffu yn 2022/23. Croesawodd y Pwyllgor gynrychiolwyr o Bron Afon, Melin a'r Wallich a roddodd gyfraniadau gwerthfawr i'n trafodaethau. Er bod y Pwyllgor yn ymwybodol fod yr argyfwng tai'n bod ar lefel genedlaethol, cawsom sicrwydd bod camau'n cael eu cymryd i liniaru'r effaith ar lefel leol.

Yn ein cyfarfod olaf o'r flwyddyn ym Mai 2024, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar **Ostwng nifer Plant Torfaen mewn Gofal.** Fel pob amser, mae hyn yn fater emosiynol i graffu arno. Roedd aelodau'n croesawu'r dull newydd ar sail cryfder a hefyd datblygiad cartref preswyl i blant yn Nhorfaen, ond rhoddon nhw argymhelliad y dylid rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â a lleihau nifer yr atgyfeiriadau dim camau pellach.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle yma i ddiolch bob aelod o'r Pwyllgor am eu presenoldeb, eu hymrwymiad, eu cyfraniadau a'r her y maen nhw wedi rhoi'n gyson yn ystod y flwyddyn. Diolch yn arbennig hefyd i'r staff gofal, defnyddwyr gwasanaeth, cynrychiolwyr cymdeithasau tai a'r cyhoedd sydd wedi rhoi amser i weithio gyda'r pwyllgor a chynnig eu barn a'u profiad. Ryw'n edrych ymlaen at barhau fel Cadeirydd y flwyddyn nesaf ac rwy'n ffyddiog y bydd y pwyllgor yn parhau â'i waith clodwiw.



Y Cynghorydd Janet Jones

**Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**

# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG

**Cadeirydd y Pwyllgor yma yw'r Cynghorydd Rose Seabourne (yn bresennol mewn 5/5 cyfarfod).**

**Aelodaeth y pwyllgor yn 2022/23 oedd:**

- **Y Cynghorydd Alfie Best (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Liam Cowles (3/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Janet Jones (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Nick Jones (0/1 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Caroline Price (2/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Chris Tew (0/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Colette Thomas (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Jayne Watkins (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Lucy Williams (4/5 cyfarfod)**

**Yn ystod 2022/23, roedd gan y Pwyllgor yma 1 aelod cyfetholedig –**
**Statudol (aelodau'n pleidleisio):**
**Rhiant-lywodraethwr Uwchradd - Sedd wag**
**Rhiant-lywodraethwr Cynradd - Sedd wag**
**Rhiant-lywodraethwr Ysgolion Cymraeg - Vicky Horlor**
**Cynrychiolydd Eglwys Gatholig – Sedd wag**
**Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru – Sedd wag**

**Cyfartaledd presenoldeb aelodau am y flwyddyn oedd 74% yn gyson â phresenoldeb o 78% o'r flwyddyn gynt.**

**Cynhaliodd y Pwyllgor 5 cyfarfod yn ystod blwyddyn ddinesig 2022/23. Mae'r materion craffwyd arnynt gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn i'w gweld yma (*Mae adroddiadau llawn ar gael trwy glicio'r ddolen berthnasol.)***

**5ed Hydref 2022**
**Gwelliant i Brosesau Hunanwerthusiad a Gwelliant o fewn Addysg – Cynllun Gweithredu Ôl-adolygiad (CGOA), Argymhellion 2 & 3 Estyn**

**23ain Tachwedd 2022**
**Presenoldeb Disgyblion ac Absenoldeb Parhaus**

**2il Chwefror 2023**
**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) – Strategaeth ADY, Cynllun Gweithredu Ôl-adolygiad (CGOA), Argymhelliad 4 Estyn**

**16eg Mawrth 2023**
**Cynllun Gweithredu Ôl-adolygiad (CGOA), Argymhelliad 1 Estyn**

**30ain Mawrth 2023**
**Ymgynghoriad Cynllun Busnes y GCA 2023-2025**

**Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd craffu, cafodd argymhellion clir eu gwneud i'r Aelod(au) Gweithredol a Phrif Swyddog(ion) perthnasol. (Defnyddiwch y dolenni uchod i weld yr argymhellion gyda phecyn atebion.)**

**Ymatebodd Aelodau Gweithredol i 19 o argymhellion yn 2022-23;**

- **19 (100%) - wedi eu derbyn** *(56% yn 2021/22)*
- **0 ( 0%) - wedi eu nodi i'w hystyried**
- **0 (0%) - wedi eu gwrthod.**

## Crynodeb y Cadeirydd…

Yn gyntaf, yn fy rôl fel Cadeirydd, hoffwn ddiolch i aelodau ac aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg am eu gwaith caled, eu gwybodaeth, ymroddiad a chefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf.
Trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae rhaglen waith y pwyllgor wedi canolbwyntio ar faterion perthnasol, allweddol o fewn Addysg ar Arolwg diweddaraf Estyn. Rwy'n teimlo bod ein rôl fel "ffrind beirniadol", yn herio mewn ffordd adeiladol cynnydd y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau, a chyfrannu at bolisïau allweddol, wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.
Blaenoriaeth allweddol i'r awdurdod yn y dyfodol fydd parhau i weithio'n galed i sicrhau cynnydd wrth fodloni argymhellion Estyn a bydd y Pwyllgor yn parhau i gyfrannu mewn ffordd adeiladol i gefnogi'r cyngor i wynebu'r her yma.
Mae wedi bod yn gyfnod o ystyried ac mae strwythur y tîm addysg cyfan wedi newid, ac wedi gwella rwy'n credu. Mae penodi Cyfarwyddwr Strategol newydd, Cyfarwyddwr Addysg ac eraill wedi cryfhau ac wedi ychwanegu dyfnder i'r Adran.
Rwy'n credu bod gyda ni berthynas cryfach a mwy ymddiriedus gyda'n hysgolion, ac rydym yn deall yr heriau agos a gofynion y dyfodol.
Hoffwn gymeradwyo gwaith caled a chefnogaeth ein swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Addysg a'n Partner Gwella Ysgolion - y GCA, sydd i gyd wedi cymryd amser i ddod at y Pwyllgor a rhannu eu harbenigedd a'u gwybodaeth gyda ni. Mae gan y Pwyllgor lawer o waith i wneud o hyd, ond mae'r gwaith dros y ddeuddeg mis diwethaf wedi bod yn sylweddol.
Hoffwn ddiolch yn bersonol i Lianne Skellett, ein Swyddog Craffu, am ei chefnogaeth bersonol eithriadol nid yn unig i'r Pwyllgor Addysg, ond hefyd i mi yn bersonol, yn mynd ar ôl e-byst ac adroddiadau, weithiau gydag amserlenni byr iawn
Hefyd, diolch arbennig i'r Aelod Gweithredol, y Cynghorydd Clark, sydd wedi ac sy'n parhau i rannu gwybodaeth a briffio'r Pwyllgor yn rheolaidd, gan ein helpu i fod yn fwy gwybodus.
Bydd y flwyddyn i ddod, heb os, yr un mor brysur, ond rwy'n hyderus y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg yn parhau i ganolbwyntio ar faterion allweddol, gan weithio fesul thema i gynnig craffu effeithlon ac effeithiol.



Y Cynghorydd Rose Seabourne

**Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg**

# PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU LLEWYRCHUS

**Cadeiryddion y Pwyllgor yma ar gyfer 2022/23 oedd y Cynghorwyr David Thomas (yn bresennol mewn 3/3 cyfarfod), Nick Horler (yn bresennol mewn 5/5 cyfarfod) a Mark Jones (yn bresennol mewn 1/2 cyfarfod)**

**Aelodaeth y pwyllgor yn 2022/23 oedd:**

- **Y Cynghorydd Nick Byrne (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Liam Cowles (3/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Karl Gauden (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Sue Malson (0/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Caroline Price (2/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Nicholas Simons (1/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Nathan Yeowell (3/5 cyfarfod)**

**Cynhaliodd y Pwyllgor 5 cyfarfod yn ystod blwyddyn ddinesig 2022/23. Cyfartaledd presenoldeb yn y Pwyllgor yma am y flwyddyn oedd 60%, i lawr yn sylweddol o bresenoldeb y flwyddyn flaenorol o 83%.**

**Mae'r materion craffwyd arnynt gan y Pwyllgor yn ystod 2022/23 fel a ganlyn: (*Mae adroddiadau llawn ar gael trwy glicio'r dolenni*)**

**13eg Hydref 2022**
**Springboard a'r Ecosystem Arloesi**

**1af Rhagfyr 2022**
**Gweinyddu Cytundebau Adran 106 a Phrosiectau Cysylltiedig**

**8fed Chwefror 2023**
**Prosiect Adfywio Safle'r British**

**23ain Mawrth 2023**
**Y Broses Ymyrraeth Amlasiantaeth Disgyblion (MAPI)**

**11eg Mai 2023**
**Cydnerthedd Bwyd**

**Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd craffu, cafodd argymhellion clir eu gwneud i'r Aelod(au) Gweithredol a Phrif Swyddog(ion) perthnasol. (Defnyddiwch y dolenni uchod i weld yr argymhellion gyda phecyn atebion.)**

**Ymatebodd Aelodau Gweithredol i 18 o argymhellion yn 2022-23;**

- **15 (83%) - wedi eu derbyn (i fyny o 75% yn 2021/22)**
- **3 (17%) - wedi eu nodi i'w hystyried**
- **0 (0%) - wedi eu gwrthod**

## Crynodeb y cadeirydd(ion)…

Fel Cadeirydd y Pwyllgor TaCh Cymunedau Llewyrchus ar gyfer y sesiwn weledigaeth a dau gyfarfod cyntaf y flwyddyn graffu, cyn y newidiadau mewn cydbwysedd gwleidyddol, croesawais y cyfle i arwain y pwyllgor yn natblygiad rhaglen waith gref, wrth graffu ar opsiynau'r dyfodol ar gyfer model gweithredu Canolfan Springboard, a hefyd wrth adolygu rheolaeth a goruchwyliaeth Cyfraniadau Adran 106 Torfaen. Roedd yn gyfle gwerthfawr i wella'n gwaith craffu trwy ymweld â Chanolfan Springboard, ac, ar ran y pwyllgor, hoffwn ddiolch i'r swyddogion a pherchnogion busnesau i gyd a roddodd eu hamser i siarad â ni a'n tywys ni o gwmpas y cyfleuster.

Fel Cadeirydd, roeddwn yn falch hefyd o gael creu a hyrwyddo fideo cyfathrebu, a gyflwynwyd trwy ein sianelau cyfryngau cymdeithasol, yn rhoi manylion gwaith craffu ac yn dangos sut all y cyhoedd gymryd rhan weithgar, gan gynnwys rhoi eu hawgrymiadau eu hunain am faterion yr hoffen nhw weld yn cael eu hystyried gan un o'r pum pwyllgor. Arweiniodd y fideo yma at gynnydd anferth yn nifer yr awgrymiadau a gyflwynwyd ac anogodd mwy o ymgysylltiad cyhoeddus yn ein prosesau democrataidd**.**




Y Cynghorydd David Thomas

**Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Llewyrchus (2 gyfarfod)**

- - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - -

Ar ôl fy mhenodiad annisgwyl yn Gadeirydd ar ôl y newid mewn cydbwysedd gwleidyddol, dyma oedd fy mhenodiad cyntaf yn gadeirydd yn CBST. Yn fy nghyfarfod cyntaf fel Cadeirydd TaCH Cymunedau Llewyrchus, ein cyfrifoldeb oedd craffu ar Brosiect Adnewyddu Safle'r British. Treuliais lawer o amser yn trafod gyda Rebecca Fahey-Jones, Arweinydd y Tîm Craffu, ac ymwelais â'r safle i gael golwg gwell ar gynnwys y trafodaethau a ddigwyddodd ar 8$^{fed}$ Chwefror 2023. Ar ôl craffu ar yr adroddiad manwl iawn a herio'r Aelod Gweithredol a swyddogion, cydnabyddodd y pwyllgor yr oedi mewn cynnydd oherwydd pandemig Covid a'r angen i gael arian ychwanegol ond roedden nhw'n fodlon bod gwaith yn symud ymlaen nawr gyda'r amserlen, er mwyn cefnogi'r prosiect wrth iddo fynd yn ei flaen. Gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad ar Ymgysylltiad Cymunedol Ariannol, roeddwn i'n teimlo bod fy nghyfarfod cyntaf fel cadeirydd wedi llifo'n dda ac wedi cael ymgysylltiad pawb a oedd yno, gyda chanlyniadau cadarnhaol.

Yn fy ail gyfarfod fel Cadeirydd roeddwn i'n cymryd lle'r Cadeirydd newydd, y Cyng. Mark Jones ar ôl i'r cydbwysedd gwleidyddol newid, a oedd ar wyliau'r diwrnod hwnnw. Trafodwyd y rhaglen Ymyrraeth Amlasiantaeth (MAPI) gyda Disgyblion ar 23$^{ain}$ Mawrth 2023 pan graffon ni ar yr effaith mae'r cyfarfodydd MAPI yn cael ar blant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn

Nhorfaen, wrth dorri cylch / atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r dirywiad at drosedd ac anhrefn. Adolygodd y pwyllgor y broses MAPI ac roedden nhw'n fodlon ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar blant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn Nhorfaen wrth dorri cylch / atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r dirywiad at drosedd ac anhrefn

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r swyddogion i gyd sydd wedi ysgrifennu a chyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor ar gyfer y ddau gyfarfod yr oedden i'n gadeirydd arnynt a hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor yma sydd wedi bod yn effeithiol wrth graffu'n effeithiol.



Y Cynghorydd Nick Horler

**Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Llewyrchus (2 gyfarfod)**

- - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - - -

Ar ôl newidiadau pellach i gydbwysedd gwleidyddol, roeddwn yn falch o gymryd Cadair y Pwyllgor TaCh Cymunedau Llewyrchus ar gyfer ei gyfarfod olaf ym Mai 2023. Daeth y pwyllgor i ben a'i gylchred o gyfarfodydd raffu am y flwyddyn trwy adolygu Cydnerthedd Bwyd a sut mae'r ymyraethau a gyflwynwyd hyd yn hyn yn gwella ein cyflenwad bwyd yn lleol er mwyn creu mynediad at fwyd da, cynaliadwy, iach a fforddiadwy i'n trigolion. Gan ystyried yr anawsterau cynyddol sy'n codi o'r argyfwng costau byw, cafodd y pwyllgor sicrwydd fod y gwaith wedi gwneud hyd yn hyn wedi bod yn effeithiol wrth ddatblygu ymyraethau i wella ein cyflenwad bwyd cynaliadwy a fforddiadwy yn lleol, a gwnaeth argymhellion i gryfhau'r gwaith yma wrth i ni ymlaen.

Ar ran y Pwyllgor ehangach, hoffwn ddiolch i Aelodau Gweithredol am ddod a chyfrannu ac i swyddogion am eu hadroddiadau manwl a'u hatebion trwyadl i gwestiynau a'r herio. Hefyd hoffwn estyn diolch personol i aelodau'r pwyllgor am eu hamser, eu cyfraniadau â'u hymrwymiad i graffu'n effeithiol. Rwy'n edrych ymlaen at gadeirio'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn i ddod ac at weld y pwyllgor yn parhau yn ei rôl ddemocrataidd.



Y Cynghorydd Mark Jones

**Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Llewyrchus (1 cyfarfod)**

## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU TRAWSBYNCIOL ADNODDAU A BUSNES

- **Y Cynghorydd Stuart Ashley (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Alfie Best (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Catherine Bonera (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Ron Burnett (0/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Nick Byrne (1/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Lynda Clarkson (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Liam Cowles (3/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Giles Davies (1/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Steven Evans (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Karl Gauden (3/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Elizabeth Haynes (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Nick Horler (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Jon Horlor (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Gaynor James (0/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Jon James (0/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Janet Jones (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Mark Jones (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Nick Jones (0/4 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Sue Malson (1/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Rosemary Matthews (1/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Norma Parrish (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Caroline Price (2/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Rose Seabourne (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Nicholas Simons (0/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Alan Slade (3/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Chris Tew (0/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Colette Thomas (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd David Thomas (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Jayne Watkins (5/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd David Williams (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Lucy Williams (4/5 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Nathan Yeowell (2/5 cyfarfod)**

**Cyfartaledd presenoldeb yn 2022/23 oedd 59%, sy’n debyg i 58% yn 2021/22.**

**Cynhaliodd y Pwyllgor 5 cyfarfod yn ystod blwyddyn ddinesig 2022/23 (hyd at adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn).**

**Mae'r materion craffwyd arnynt gan y Pwyllgor isod. *(Mae adroddiadau llawn ar gael trwy glicio'r ddolen berthnasol.)***

**21ain Gorffennaf 2022**
**Drafft 1af y Cam Casglu Tystiolaeth mewn perthynas ag Adroddiad Hunanasesiad y Cyngor**

**4ydd Hydref 2022**
**Cynllun Sirol 2022-27**

**12fed Hydref 2022**
**Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Torfaen 2021 - 2022**

**8fed Tachwedd 2022**
**Amcangyfrifon Refeniw Cychwynnol 2023/24**

**25ain Ionawr 2023**
**Cynllunio Ariannol 2023/24**

**Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd craffu, cafodd argymhellion clir eu gwneud i'r Aelod(au) Gweithredol a Phrif Swyddog(ion) perthnasol. (Defnyddiwch y dolenni uchod i weld yr argymhellion gyda phecyn atebion.)**

**Ymatebodd Aelodau Gweithredol i 28 o argymhellion yn 2022-23;**

- **24 (86%) - wedi eu derbyn** *(yn sylweddol uwch na'r 38% yn 2021/22)*
- **3 (11%) - wedi eu nodi i'w hystyried**
- **1 (3%) - wedi eu gwrthod.**

## Crynodeb y Cadeirydd…

Mae wedi bod yn anrhydedd Cadeirio'r Pwyllgor Craffu Trawsbynciol Adnoddau a Busnes ers cael fy ail-ethol ym Mai 2022 a hoffwn ddiolch i'r aelodau am fynychu ac am eu cyfraniadau yn y cyfarfodydd i gyd a gynhaliwyd eleni. Mae'r pwyllgor yn canolbwyntio ar gadw i oruchwylio'r materion i gyd sy'n effeithio'r Cyngor cyfan. Yn ystod blwyddyn graffu 2022/23, mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Trawsbynciol Adnoddau a Busnes wedi ystyried 5 pwnc yn ein rhaglen waith ar gyfer eleni.

Fel nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r pwyllgor wedi craffu ar Ddrafft 1af y Cam Casglu Tystiolaeth mewn perthynas ag Adroddiad Hunanasesiad y Cyngor, y Cynllun Sirol drafft 2022-27, Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Torfaen 2021 – 2022, Amcangyfrifon Refeniw Cychwynnol 2023/24 a Chynllunio Ariannol 2023/24.

Mae'r cynigion ar gyfer Cyllideb flynyddol y Cyngor bob amser yn eitem y mae gan aelodau rôl allweddol wrth graffu arno. Croesawodd y Pwyllgor y setliad dros dro gan Lywodraeth Cymru ar 14eg Rhagfyr 2022 a oedd yn setliad da, yn sylweddol uwch na'r lefel a nodwyd o flaen llaw ac roedd yn cymeradwyo'r camau a fydd, ochr yn ochr ag arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn y setliad dros dro, yn mynd i'r afael yn llwyr gyda'r sefyllfa anffafriol a nodwyd i gychwyn. Rwy'n gwerthfawrogi ymroddiad yr aelodau craffu i gyd sydd wedi cymryd rhan yn y trafodaethau anodd yma i gefnogi'r cyngor i wario adnoddau prin mewn ffordd mor ddoeth â phosibl.

Roedd craffu ar y Cynllun Sirol drafft yn waith sylweddol arall gan y pwyllgor, gydag aelodau'n cyfrannu at lunio themâu allweddol ac amcanion lles yn y Cynllun Sirol 2022-27 newydd.

Mae'r gwaith o gynhyrchu'r rhaglen hon yn dangos ymdrech sylweddol o ran amser ac adnoddau cyn iddi gyrraedd y pwyllgor. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau manwl a dderbyniwyd gan y pwyllgor hwn, a hoffwn ddiolch i'r rheiny i gyd sydd wedi bod ynghlwm wrth y broses.

Unwaith eto, rwy'n credu ein bod ni wedi dangos ein bod yn gyfaill beirniadol o werth, gan gynnig melin drafod, herio a syniadau newydd i'r rheiny yr ydym wedi gweithio â nhw. Rwy'n edrych ymlaen at Gadeirio'r Pwyllgor ac at weithio gydag aelodau wrth barhau â'r gwaith yma yn y flwyddyn o'n blaenau.



Y Cynghorydd Stuart Ashley

**Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Trawsbynciol Adnoddau a Busnes**

## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R BWRDD GWASNAETHAU CYHOEDDUS

**Aelodaeth y Pwyllgor yma yw cadeiryddion y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Cyfradd presenoldeb yn y Pwyllgor yma oedd 100%.**

- **Y Cynghorydd Stuart Ashley (2/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Steven Evans (2/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Nick Horler (1/1 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Janet Jones (2/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd Rose Seabourne (2/2 cyfarfod)**
- **Y Cynghorydd David Thomas (1/1 cyfarfod)**

**Mae'r materion craffwyd arnynt gan y Pwyllgor yn 2022/23 isod. Mae adroddiad llawn ar gael trwy glicio'r ddolen bresennol:**

**6ed Medi 2022**
**Adroddiad Blynyddol Grŵp Cyflenwi Lleol Torfaen 2021/22**

**7fed Rhagfyr 2022**
**Cynllun Lles Drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent – 2023-2028**

**Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd craffu, cafodd argymhellion clir eu gwneud i'r Aelod(au) Gweithredol a Phrif Swyddog(ion) perthnasol.**
**(Defnyddiwch y dolenni uchod i weld yr argymhellion gyda phecyn atebion.)**

**Ymatebodd Aelodau Gweithredol i 15 o argymhellion yn 2022/23 (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn);**

- **13 (86%) - wedi eu derbyn** *(gwelliant o'r 70% yn 2021/22)*
- **1 (7%) - wedi eu nodi i'w hystyried**
- **1 (7%) - wedi eu gwrthod.**

Cynhyrchwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Gorffennaf 2023

**Mae gwybodaeth bellach am swyddogaeth drosolwg a chraffu'r Cyngor ar gael trwy:**

https://www.torfaen.gov.uk/cy/CouncilDemocracy/DemocracyElections/Overview-and-Scrutiny/Overview-and-Scrutiny.aspx

**Am wybodaeth bellach am drosolwg a chraffu, cysylltwch os gwelwch yn dda â:**

**Y Tîm Craffu**
**Y Ganolfan Ddinesig,**
**Pont-y-pŵl,**
**Torfaen**
**NP4 6YB**

**Ffôn: 01495 766337**
**E-bost:** scrutiny@torfaen.gov.uk

**Os hoffech chi gael y ddogfen hon ar ffurf wahanol, cysylltwch â'r Tîm Gwelliant a Chraffu ar 01495 766337**

**Os hoffech chi wneud sylw ar ein Hadolygiad Blynyddol o Graffu, 2022/23, danfonwch e-bost at** scrutiny@torfaen.gov.uk